

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Llun, 29ain Ebrill, 2024 at 2.00
pm

CYNGHORWYR Andrew Blackmore, (Cadeirydd)
YN Cynghorydd Sirol Tony Easson, (Is-Gadeirydd)
BRESENNOL:

C. Prosser, M. Veale, R. Guest

Cynghorydd Sirol: Sara Burch, John Crook, Malcolm Lane,
Phil Murphy, Peter Strong and Ann Webb

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Jan Furtek	Acting Chief Internal Auditor
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democraataidd
Richard Jones	Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data
Jonathan Davies	Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Emma Tapper	Governance & Assurance Officer
Hannah Carter	Dadansoddwr Perfformiad
Gareth Lucey	Swyddog Archwilio Cymru
Jason Williams	Senior Auditor

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol David Jones

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Nodi'r Rhestr Weithredu o'r cyfarfod diwethaf.

Nodwyd y rhestr o gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.

Gweler y drafodaeth ar yr eitem hon, cwestiynau a sylwadau yma

1. Capasiti'r Tîm Cyllid: AGORED
2. Strategaeth Pobl: AGORED
3. Rhyddid Gwybodaeth, Diogelu Data a Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun:
Polisiâu rheoli risg corfforaethol: CAEËDIG
4. Datganiad o gyfrifon MCC/ISA260: AGORED

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Llun, 29ain Ebrill, 2024 at 2.00
pm

4. Rhaglen Waith Archwilio Cymru: Diweddariad Cynnydd y Cyngor

Cyflwynodd y Dadansoddwr Perfformiad a'r Rheolwr Perfformiad a Mewnwelediad Data Raglen Waith Archwilio Cymru: Dilynwyd hyn gan Ddiweddariad ar Gynnydd i'r Cyngor ac yna ymatebion gan Gyfarwyddwr Ymgysylltu Archwilio Cymru (Sir Fynwy) a'r Uwch Archwilydd. Yna gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i roi sylwadau a gofyn cwestiynau.

[Gweler y drafodaeth ar yr eitem hon, cwestiynau a sylwadau yma](#)

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad:

1. Craffodd yr aelodau ar ymateb y cyngor i raglen waith Archwilio Cymru, a gofynnwyd am sicrwydd bod cynnydd digonol yn cael ei wneud.
2. Ni chyfeiriodd yr aelodau unrhyw faterion sydd wedi'u cynnwys yn astudiaethau cenedlaethol Archwilio Cymru at bwyllgorau eraill i'w hystyried ble nodwyd ganddynt bod canfyddiadau sy'n arbennig o berthnasol i'r cyngor y mae angen craffu arnynt ymhellach.

5. Effeithiolrwydd y Fframwaith Rheoli Risg Strategol

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad a Mewnwelediad Data a'r Dadansoddwr Perfformiad adroddiad ar Effeithiolrwydd y Fframwaith Rheoli Risg Strategol. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

[Gweler y drafodaeth ar yr eitem hon, cwestiynau a sylwadau yma](#)

Fel y nodir yn argymhellion yr adroddiad:

1. Adolygodd yr aelodau'r diweddariadau a gynigiwyd i'r polisi rheoli risg strategol a chawsant gyfle i argymhell unrhyw newidiadau er mwyn llywio ei ddatblygiad pellach.
2. Defnyddiodd yr aelodau'r asesiad i geisio sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg yr awdurdod; a
3. Nododd yr Aelodau'r polisiâu rheoli risg corfforaethol pellach a nodwyd y gallai'r Pwyllgor eu hadolygu mewn mwy o fanylder fel rhan o'u blaenraglen waith.

6. Cynllun Archwilio Mewnol 24/25

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol Gynllun Archwilio Mewnol 2024/25. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

[Gweler y drafodaeth ar yr eitem hon, cwestiynau a sylwadau yma](#)

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gynllun Archwilio Mewnol 2024/25, a bu iddynt gyflwyno sylwadau arno a'i gymeradwyo.

7. Asesiad Ansawdd Allanol o Archwilio Mewnol 2024

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Llun, 29ain Ebrill, 2024 at 2.00 pm

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad ar yr Asesiad Ansawdd Allanol (EQA) o Archwilio Mewnol 2024. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau:

Gweler y drafodaeth ar yr eitem hon, cwestiynau a sylwadau yma

Fel y cynhwyswyd yn argymhellion yr adroddiad, nododd y Pwyllgor yr adroddiad a bu iddynt ofyn am ddiweddariadau ar y cynnydd o ran cyflawni'r cynllun gweithredu.

8. Gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol y cytunwyd arnynt

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad ar y graddau y mae swyddogion wedi rhoi argymhellion Archwilio Mewnol ar waith. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Gweler y drafodaeth ar yr eitem hon, cwestiynau a sylwadau yma

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad hwn a'r camau a gymerwyd gan reolwyr gweithredol.

9. Model Darparu Arfaethedig yn y Dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Prif Swyddog Adnoddau adroddiad ar y Model Darparu Arfaethedig yn y Dyfodol ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Yna gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau.

Gweler y drafodaeth ar yr eitem hon, cwestiynau a sylwadau yma

Fel y manylir yn argymhellion yr adroddiad:

1. Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn nodi'r gwerthusiad o opsiynau gan roi sylwadau ar y model cyflawni arfaethedig ar gyfer Archwilio Mewnol, ac
2. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi cryfhau trefniadau Gwrth-dwyll o fewn Cyngor Sir Fynwy gan greu swydd newydd o fewn y tîm Archwilio Mewnol sy'n ymroddedig i ymateb i dwyll a hyfforddiant.

10. Adolygiad Data Perfformiad Archwilio Cymru

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Ymgysylltu Archwilio Cymru (Sir Fynwy) a'r Uwch Archwilydd Adolygiad o Ddata Perfformiad Archwilio Cymru. Ymatebodd y Rheolwr Perfformiad a Mewnwelediad Data i gwestiynau:

Gweler y drafodaeth ar yr eitem hon, cwestiynau a sylwadau, yma

11. Blaengynllun y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Nodwyd Blangynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Llun, 29ain Ebrill, 2024 at 2.00
pm**

Gwyliwch yma

12. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.

Gwyliwch yma

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 6ed Mehefin 2024

Gorffennodd y cyfarfod am 3.49 pm